TAG UG A SAFON UWCH Y GYFRAITH

Crynodeb o'r penderfyniadau a dadansoddiad o'r ymatebion i'n hymgynghoriad ar ddiwygio TAG, UG a Safon Uwch Y Gyfraith i'w haddysgu am y tro cyntaf ym mis Medi 2017

Crynodeb o'r penderfyniadau a dadansoddiad o'r ymatebion i'n hymgynghoriad ar ddiwygio TAG yn y Gyfraith i'w haddysgu am y tro cyntaf yn 2017

Crynodeb Gweithredol

Rhwng 4 Ebrill a 15 Mai 2016, gwnaethom ymgynghori ar gynigion ar gyfer cymhwyster TAG diwygiedig yn y Gyfraith i'w gymeradwyo i'w addysgu am y tro cyntaf yng Nghymru o fis Medi 2017. Mae copi o gynigion a chwestiynau'r ymgynghoriad ar gael yn linc yma.

Ym mis Gorffennaf 2016, gwnaethom gyhoeddi *Meini Prawf Cymeradwyo ar gyfer TAG yn y Gyfraith* (2016)[1], a nododd y gofynion manwl ar gyfer sut y dylid dylunio ac asesu'r cymhwyster diwygiedig. Caiff y gofynion eu llywio gan yr ymatebion i'n hymgynghoriad a chan safbwyntiau a fynegwyd gan ddysgwyr drwy ymarfer ymgysylltu ategol.

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r ymatebion a gawsom i'r ymgynghoriad ar y cynigion ac yn egluro'r penderfyniadau a wnaed gennym o ystyried yr ymatebion hyn, a adlewyrchir yn *Meini Prawf Cymeradwyo ar gyfer TAG yn y Gyfraith (2016)*[1].

Cefndir

Caiff y cymhwyster TAG yn y Gyfraith ei ddiwygio yng Nghymru i'w addysgu am y tro cyntaf o fis Medi 2017, fel rhan o raglen ehangach o ddiwygiadau i gymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch. Yr unig gorff dyfarnu a fydd yn datblygu ac yn cynnig y cymhwyster TAG diwygiedig yn y Gyfraith yng Nghymru fydd CBAC, gan mai dyma'r unig gorff dyfarnu sydd wedi cytuno i ddatblygu cymwysterau TAG diwygiedig wedi'u cynllunio'n benodol i'w dyfarnu yng Nghymru.

Datblygwyd y cynigion y gwnaethom ymgynghori arnynt drwy ymgysylltu â nifer o randdeiliaid, gan gynnwys corff dyfarnu CBAC, ysgolion a sefydliadau addysg bellach (SABau), sefydliadau addysg uwch (SAUau) a Llywodraeth Cymru.

Crynodeb o'r cynigion a'r penderfyniadau

Nodau ac Amcanion

Yn ein hymgynghoriad, gwnaethom gynnig y gellid cadw nodau ac amcanion presennol y cymwysterau UG a Safon Uwch cyfredol ar yr un ffurf â'r meini prawf pwnc presennol, gyda rhai ychwanegiadau i amlygu'r sgiliau a'r wybodaeth gyfreithiol a gaiff eu datblygu fel rhan o'r cwrs. Yn y Meini Prawf Cymeradwyo terfynol, rydym wedi mynd ymhellach na'n cynigion. Bellach, mae'r nodau a'r amcanion yn adlewyrchu'n agosach eiriad y nodau a'r amcanion a bennwyd gan yr Adran Addysg ar gyfer y cymhwyster Safon Uwch diwygiedig yn Lloegr.

Er mwyn sicrhau y gellir cymharu'r cymwysterau hyn a'r cymwysterau UG a Safon Uwch a gaiff eu cymryd yn Lloegr, ystyriwyd ei bod hi'n bwysig sicrhau'r hyn sy'n debyg o ran nodau ac amcanion y cymwysterau diwygiedig a gaiff eu datblygu ar gyfer Cymru. Mae hyn yn arbennig o wir, o ystyried pwyslais gwahanol yr hyn a gaiff ei gynnwys yn y cymwysterau ar gyfer Lloegr a Chymru.

[1] Meini Prawf Cymeradwyo ar gyfer TAG yn y Gyfraith

Cynnwys

Gwnaethom gynnig y dylid mabwysiadu cynnwys pwnc cymhwyster diwygiedig Safon Uwch y Gyfraith yn Lloegr ar gyfer cymwysterau diwygiedig UG a Safon Uwch y Gyfraith yng Nghymru, ond gyda ffocws ychwanegol ar awdurdod deddfwriaethol Cynulliad Cymru a'r ddeddfwriaeth a gynhyrchir ganddo, ac ar natur ddwyieithog Cymru.

Wrth i ni fynd ati i ddrafftio gofynion manwl y cynnwys i adlewyrchu'r cynigion hyn, canfuom, drwy ychwanegu cynnwys penodol ar y system gyfreithiol, fod cynnydd sylweddol yn swm y cynnwys i'w astudio o gymharu â'r cynnwys a ragnodwyd ar gyfer y cymwysterau newydd yn Lloegr.

Er mwyn mynd i'r afael â hyn, rydym wedi newid strwythur y cynnwys. Ar lefel UG, dim ond un maes o gyfraith gadarnhaol y disgwylir i ddysgwyr ei hastudio, a hynny'n ychwanegol at natur y gyfraith a'r system gyfreithiol yng Nghymru. Mae hyn yn wahanol i'r gofynion ar gyfer lefel UG yn Lloegr, lle y disgwylir i ddysgwyr astudio dau faes. Fodd bynnag, yn gyffredinol, bydd yn rhaid bod dysgwyr yng Nghymru wedi astudio cyfraith gyhoeddus a chyfraith breifat ar lefel UG ac U2 o hyd. Ac, yn gyffredinol, bydd yn rhaid i ddysgwyr yng Nghymru sy'n cymryd y cymhwyster Safon Uwch cyfan astudio'r un nifer o feysydd o gyfraith gadarnhaol â'u cymheiriaid yn Lloegr.

Amcanion asesu

Rydym wedi mabwysiadu amcanion asesu y gwnaethom eu cynnig. Mae'r rhain yn adlewyrchu'r amcanion asesu a fabwysiadwyd yn Lloegr a bydd hyn yn helpu i sicrhau bod modd cymharu'r ddwy set o gymwysterau diwygiedig yn haws.

Asesu

Rydym wedi cadarnhau ein cynnig y dylai cymhwyster diwygiedig Safon Uwch y Gyfraith yng Nghymru barhau i gael ei asesu'n gyfan gwbl drwy arholiadau ysgrifenedig.

Ymatebion i'r ymgynghoriad

Cwblhaodd cyfanswm o bedwar ymatebwr yr ymgynghoriad ar-lein cyfan, neu ran ohono, ar gyfer TAG yn y Gyfraith. O'r ymatebwyr hyn, ymatebodd un fel unigolyn a dau ar ran sefydliad. O'r rhai a ymatebodd ar ran sefydliad, roedd un yn cynrychioli ysgol ac un yn cynrychioli coleg addysg bellach.

Nodau ac amcanion pwnc

Ar gyfer y cymhwyster TAG diwygiedig yn y Gyfraith, gwnaethom gynnig y nodau a'r amcanion pwnc canlynol:

Dylai manylebau UG a Safon Uwch yn y Gyfraith annog dysgwyr i wneud y canlynol:

- datblygu a chynnal eu mwynhad o'r gyfraith a'u diddordeb yn y pwnc;
- datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o feysydd penodol o'r gyfraith a'r system gyfreithiol yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon;

- datblygu dealltwriaeth o ddulliau ac ymresymu cyfreithiol;
- datblygu technegau ar gyfer meddwl yn rhesymegol a'r sgiliau sy'n angenrheidiol i ddadansoddi a datrys problemau gan ddefnyddio rheolau cyfreithiol;
- datblygu'r gallu i fynegi dadleuon a chasgliadau cyfreithiol gan gyfeirio at awdurdodau cyfreithiol priodol;
- datblygu ymwybyddiaeth feirniadol o natur newidiol y gyfraith mewn cymdeithas.
- datblygu'r gallu i gyfleu dadleuon cyfreithiol perswadiol gan gyfeirio at awdurdodau cyfreithiol priodol
- gallu dangos ymwybyddiaeth feirniadol o ddylanwad a gweithrediad y gyfraith mewn cymdeithas

Fel rhan o'n hymgynghoriad, gwnaethom ofyn y canlynol i ymatebwyr:

C1: I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r nodau ac amcanion pwnc arfaethedig ar gyfer cymhwyster Safon Uwch y Gyfraith yng Nghymru?

Fel y dangosir yn Siart 1 isod, roedd pawb a ymatebodd i gwestiwn 1 yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r nodau ac amcanion arfaethedig.

Siart 1. Ymatebion i gwestiwn 1 yr ymgynghoriad ar TAG yn y Gyfraith.



- O'r tri unigolyn a gytunodd yn gryf â'r cynnig, nododd un ei fod yn croesawu'r pwyslais ar ddatblygu "sgiliau" fel cymhwyso, rhesymu a dadlau ac y dylai'r rhain fod yr un mor bwysig â "gwybodaeth", gan ychwanegu ei fod yn poeni y byddai unrhyw faes llafur sy'n ceisio cynnwys gormod o bynciau a meysydd gwybodaeth yn gorfodi ymarferwyr i ganolbwyntio ar roi gwybodaeth ar draul arwain y gwaith o ddatblygu sgiliau cyfreithiol.

- Cytunodd dau unigolyn â'r cynnig, ond nododd un ohonynt nad oedd yn argyhoeddedig o'r achos dros y newidiadau arfaethedig i'r nodau drafft. Nid oedd yn gweld pam bod y cyfeiriad at 'gasgliadau' wedi'i hepgor yn y nod olaf ond un, ac nid oedd o blaid y penderfyniad i ddefnyddio'r gair 'perswadiol'.

Yn sgil trafodaethau pellach â'r corff dyfarnu a chynrychiolwyr Llywodraeth Cymru ac Addysg Uwch, rydym wedi diwygio ac atgyfnerthu'r nodau ac amcanion arfaethedig ar gyfer y pwnc. Nod y newidiadau hyn yw i sicrhau ei bod yn haws eu cymharu â'r newidiadau a wnaed i'r pwnc yn Lloegr. Mae'r nodau ac amcanion arfaethedig bellach yn darllen fel a ganlyn.

- Rhaid i fanylebau UG a Safon Uwch yn y Gyfraith annog dysgwyr i wneud y canlynol:
- datblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o system gyfreithiol Cymru ac agweddau ar gyfraith breifat a chyfraith gyhoeddus yng nghyfraith Cymru a Lloegr;
- datblygu dealltwriaeth o'r dull cyfreithiol a'r ymresymu cyfreithiol a ddefnyddir gan gyfreithwyr a'r farnwriaeth;
- datblygu a chymhwyso'r technegau sydd ynghlwm wrth y dull cyfreithiol a'r ymresymu cyfreithiol er mwyn dadansoddi problemau a chynnig atebion iddynt, ar sail egwyddorion cyfreithiol, deddfwriaeth a chyfraith achosion;
- datblygu'r gallu i lunio casgliadau a chyfleu dadleuon cyfreithiol gan gyfeirio at awdurdodau cyfreithiol priodol.
- Yn U2, rhaid i ddysgwyr hefyd wneud y canlynol:
- datblygu'r gallu i gyfleu dadleuon cyfreithiol perswadiol gan gyfeirio at awdurdodau cyfreithiol priodol;
- gallu dangos ymwybyddiaeth feirniadol o ddylanwad a gweithrediad y gyfraith mewn cymdeithas.
-

<u>Cynnwys pwnc</u>

Gwnaethom gynnig bod yn rhaid i fanylebau ei gwneud yn ofynnol i fyfyrwyr ddangos eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r canlynol:

- natur y gyfraith a system gyfreithiol Cymru a Lloegr
- cyfraith breifat (cyfraith contractau a chyfraith camwedd)
- cyfraith gyhoeddus (cyfraith droseddol neu gyfraith hawliau dynol)
- cynnwys deddfwriaeth sylfaenol ac eilaidd a lunnir gan Gynulliad Cymru drwy ei awdurdod datganoledig, gan gynnwys y sail ddeddfwriaethol sy'n caniatáu'r awdurdod hwnnw
- y gyfraith sy'n ymwneud â natur ddwyieithog Cymru;
- caiff cyfeiriadau a wneir at system gyfreithiol Lloegr eu disodli gan gyfeiriadau at system gyfreithiol Cymru a Lloegr.

Fel rhan o'n hymgynghoriad, gwnaethom ofyn y canlynol:

C2: I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r cynnwys pwnc arfaethedig ar gyfer cymhwyster Safon Uwch y Gyfraith yng Nghymru?

Fel y dengys Siart 2 isod, roedd pob ymatebydd yn cytuno'n gryf â'r meysydd pwnc arfaethedig.

Siart 2. Ymatebion i gwestiwn 2 yr ymgynghoriad ar TAG yn y Gyfraith.



- O'r tri unigolyn a ymatebodd i gwestiwn 2, roedd pob un yn cytuno â'r cynnig. Roedd un o'r unigolion hynny o'r farn y dylai'r meysydd pwnc fod yn fwy penodol ac roedd o blaid cynnwys "Y gyfraith sy'n berthnasol i ddatganoli" fel trydydd pwnc ym maes cyfraith gyhoeddus. Roedd un arall yn pryderu oherwydd, yn ei farn ef, nid yw cyflwyno mwy o "gynnwys", o reidrwydd, yn gydnaws â'r gallu i ddatblygu sgiliau ehangach a phwysicach.

Yn y Meini Prawf Cymeradwyo terfynol, rydym wedi nodi'r gofynion penodol o ran cynnwys ar gyfer pob un o'r themâu arfaethedig yn fanylach. Rydym hefyd wedi ychwanegu mwy o fanylion ynghylch sut y dylai'r cynnwys gael ei strwythuro a'r hyn a ddylai gael ei astudio ar lefel UG ac U2.

Mae'r meini prawf cymeradwyo ar gyfer cynnwys y pwnc fel a ganlyn:

1. Yn achos UG, rhaid i fanylebau ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr ddangos eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r tri maes astudio canlynol:

    1.1. Natur y gyfraith

    1.2. System gyfreithiol Cymru

    1.3. Cyfraith camwedd.

2. Yn U2, rhaid i fanylebau ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr astudio dau o'r tri maes cyfreithiol canlynol:

    2.1. Cyfraith hawliau dynol

    2.2. Cyfraith contractau

2.3. Cyfraith troseddau.

2.4. Rhaid i fanylebau roi dewis i ddysgwyr o bob un o'r tri maes cyfreithiol hyn.

2.5. Ym mhob maes cyfreithiol a astudir yn U2, rhaid ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr ddangos eu dealltwriaeth o natur hollbresennol cyfraith a chymdeithas, cyfraith a moesoldeb a chyfraith a chyfiawnder.

Amcanion Asesu

Gwnaethom gynnig y dylai'r amcanion asesu a'r pwysoliadau canlynol fod yn berthnasol i gymhwyster diwygiedig Safon Uwch yn y Gyfraith:

Amcan	**Gofynion**	**Pwysoliad**		
		UG	**U2**	**Safon Uwch**
AA1	Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o reolau ac egwyddorion cyfreithiol	40-50%	30-40%	30-40%
AA2	Cymhwyso rheolau ac egwyddorion cyfreithiol at senarios penodol er mwyn cyflwyno dadl gyfreithiol gan ddefnyddio terminoleg gyfreithiol briodol	25-35%	25-35%	25-35%
AA3	Dadansoddi a gwerthuso rheolau, egwyddorion, cysyniadau a materion cyfreithiol	20-30%	30-40%	30-40%

Mewn perthynas â'r amcanion asesu a'r pwysoliadau, gwnaethom ofyn y canlynol:

C3: I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylai'r amcanion asesu a'r pwysoliadau arfaethedig fod yn berthnasol i gymhwyster diwygiedig Safon Uwch y Gyfraith yng Nghymru?

Fel y dangosir yn Siart 3 isod, roedd pawb a ymatebodd i gwestiwn 3 yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r amcanion asesu a'r pwysoliadau arfaethedig.

Siart 3. Ymatebion i gwestiwn 3 yr ymgynghoriad ar TAG yn y Gyfraith.



Roedd un unigolyn yn cytuno'n gryf â'r cynnig ac roedd tri yn cytuno ag ef. Ni wnaed unrhyw sylwadau perthnasol mewn perthynas â chwestiwn 3 yr ymgynghoriad.

Adlewyrchir yr amcanion asesu a'r pwysoliadau arfaethedig yn y ddogfen gyhoeddedig *Meini Prawf Cymeradwyo ar gyfer TAG UG a Safon Uwch yn y Gyfraith (2016)*[1].

Asesiadau nas cynhelir drwy arholiadau

Gwnaethom gynnig y dylai cymhwyster diwygiedig Safon Uwch yn y Gyfraith yng Nghymru barhau i gael ei asesu'n gyfan gwbl drwy arholiadau ysgrifenedig yn unig.

Mewn perthynas â'r strwythur asesu, gwnaethom ofyn y canlynol:

4. I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylai cymhwyster Safon Uwch y Gyfraith gael ei asesu'n llawn drwy arholiadau ysgrifenedig?

O'r pedwar ymateb a gafwyd i'r cwestiwn hwn, dengys Siart 4 isod fod 75% yn cytuno'n gryf â'r cynnig ac nad oedd 25% o'r ymatebwyr yn cytuno nac yn anghytuno.

Siart 4. Ymatebion i gwestiwn 4 yr ymgynghoriad ar TAG yn y Gyfraith



Cytunodd tri unigolyn yn gryf â'r cynnig y dylai cymhwyster Safon Uwch yn y Gyfraith gael ei asesu'n llawn drwy arholiadau ysgrifenedig.

Nid oedd un unigolyn yn cytuno nac yn anghytuno, gan nodi y byddai cyfuniad o asesiadau drwy arholiadau a gwaith cwrs yn fwy addas.

Mae'r ddogfen gyhoeddedig *Meini Prawf Cymeradwyo ar gyfer TAG UG a Safon Uwch yn y Gyfraith (2016)*[1] yn adlewyrchu'r cynnig cychwynnol.

Cymorth ac Adnoddau

Ym mhob un o'n hymgynghoriadau, gwnaethom ofyn y cwestiwn canlynol i ymatebwyr:

Pa gymorth ac adnoddau y gall fod eu hangen ar ganolfannau ac athrawon er mwyn bod mor barod â phosibl i gyflwyno'r fanyleb ddiwygiedig yn eich barn chi? Rhowch sylwadau

Ymhlith pethau eraill, tynnodd y rheini a ymatebodd i'r cwestiwn hwn sylw at y canlynol:

- yr angen i ddarparu gwerslyfrau ac adnoddau ar-lein
- buddiannau posibl trefnu digwyddiadau DPP a hyfforddiant HMS yn ganolog
- yr angen am bapurau arholiad enghreifftiol a deunyddiau asesu enghreifftiol
- a defnyddioldeb atebion enghreifftiol er mwyn dynodi lefel ddisgwyliedig yr ymateb.

Byddwn yn rhannu'r pwyntiau a godwyd â'r corff dyfarnu, consortia a Llywodraeth Cymru.

Yr effaith ar unigolion â nodweddion gwarchodedig

Ym mhob un o'n hymgynghoriadau, gwnaethom ofyn y cwestiwn canlynol i ymatebwyr:

Nodwch isod a allai unrhyw ran o'r cynnig hwn gael effaith gadarnhaol neu negyddol ar unigolion â nodweddion gwarchodedig a ph'un a fyddai unrhyw ran o'r cynnig yn peri problemau o ran hygyrchedd i ddysgwyr yng Nghymru.

Ar gyfer yr ymgynghoriad ar y cymhwyster TAG diwygiedig yn y Gyfraith, ni thynnodd unrhyw ymatebwyr sylw at unrhyw effeithiau cadarnhaol na negyddol ar unigolion â nodweddion gwarchodedig.

Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau ynglŷn â'r ddogfen hon at:

Ymholiadau
Cymwysterau Cymru
Adeilad Q2
Pencarn Lane
Parc Imperial
Coedcernyw
Casnewydd
NP10 8AR
ymholiadau@cymwysteraucymru.org